

# DOLEN Y TAB – 9

## 19–20 Mehefin 2020

---

### DYDD SUL

### 21 MEHEFIN

#### \*\*OEDFA'R TABERNACL\*\*

Cofiwch droi i mewn i'n hoedfa ar lwyfannau Facebook a gwefan y capel fore Sul yng nghwmni Gareth a Rhiannon Humphreys a Geraint Rees.

---

10.30 [www.annibynwyr.org](http://www.annibynwyr.org)

Arweinig yr oedfa gan Rhodri Glyn, Llansannan, Dinbych.

11.00 S4C Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol

Dan arweiniad y Parchedig Judith Morris, Undeb Bedyddwyr Cymru.

12.00 Oedfa Radio Cymru

Gyda Sian Rees, y Gynghrair Efengylaidd.

\*\*\*

Cofiwch hefyd fod *Cristnogaeth21* yn cyhoeddi e-fwletin ar eu gwefan bob bore Sul: [www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

---

**HENO**  
**(NOS WENER, 19 MEHEFIN)**

**AM 7 O'R GLOCH**

**Yn fyw i'ch cartrefi . . .**

**CWIS BOB OED**  
**CAPEL Y TABERNACL**

**CWISFEISTRI:**  
**GWENNO, CAROLINE**  
**A GERAINT REES**

**CROESO I BAWB YMUNO AR ZOOM!**  
ID: 88631469252  
CYFRINAIR: 391265

## CASGLIAD

### CYMORTH CRISTNOGOL

Diolch yn fawr iawn i bawb am eu haelioni i gasgliad Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, a ninnau'n gorfod gweithredu dan amodau gwahanol iawn i'r arfer oherwydd y cyfyngu ar ein symudiadau. Bu'r casglu drwy siec a throsglwyddiad banc yn fodd i sicrhau bod cyfraniad y Tabernacl i'r ymgyrch leol mor anrhydeddus ag erioed, gan gyrraedd £1,625.

#### DIOLCH YN FAWR IAWN I CHI I GYD

**Y GWEITHGOR CYFIAWNDER**  
**CYMDEITHASOL**

#### TAFOD Y TAB

Cyhoeddir rhifyn nesaf *Tafod y Tab*, a hynny'n ddigidol, yn ystod wythnos gyntaf Gorffennaf i gyd-fynd â dyddiad ail-agor y capel ar ei newydd wedd yn 1870.

Bydd yn rifyn arbennig iawn oherwydd ynddo ceir atodiad lliw 12 tudalen yn dathlu'r 150 mlwyddiant. Golygydd yr atodiad, fydd yn olrhain hanes llanw a thrai yr achos o'i ddechreuad hyd at y dydd heddiw, yw Emlyn Davies. Heb fanylu gormod ar ei gynnwys, gallaf ddatgelu y bydd yn cynnwys portreadau o gyn-weinidogion a'r arweinwyr lleyg cynnar, ynghyd ag atgofion diddorol gan gyn-aelodau ac aelodau presennol yr eglwys.

Ein bwriad yw atgynhyrchu'r atodiad ar bapur fel cofrodd unwaith y byddwn wedi dychwelyd i ryw lun o normalrwydd.

Bydd y rhifyn hefyd yn cynnwys yr arlwy arferol, sef newyddion, erthyglau a lluniau yn adrodd gweithgareddau'r Tabernacl a mwy yn ystod y chwe mis diwethaf. Unwaith yn rhagor, gwahoddir cyfraniadau i'w hanfon at: [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) a hynny **erbyn dydd lau 25 Mehefin**. Fel arall, mae croeso i chi eu postio at Gwilym ac Eleri Huws, Tal-y-fan, 9 Gerddi'r Sofran, Meisgyn, Pontyclun CF72 8SZ.

## 'GWIRIONEDDAU CONSENSWS Y 70au...'

Dyma deitl ysgrif ddiddorol ac amserol iawn a welir ar dudalen 7 o rifyn cyfredol *Y Tyst* (18 Mehefin), sef y dudalen honno o wythnosolyn enwad yr Annibynwyr a neilltuir i unigolyn wyntyllu barn annibynnol ar destun o'u dewis sydd heb fod o reidrwydd yn 'adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y *tîm golygyddol*'. Y pwnc gaiff ei drafod gan y cyfrannwr y tro hwn yw dylanwad ffundamentalwyr Cristnogol ar wleidyddiaeth asgell dde yr Unol Daleithiau dros y deugain mlynedd diwethaf, a'r posibilrwydd o drobwynt yn eu safbwyntiau yn sgil ymateb cywilyddus yr Arlywydd Trump i lofruddiaeth George Floyd.

Ond mae paragraff agoriadol yr ysgrif (gweler isod) yn disgrifio magwraeth yr awdur, Geraint Rees, ar aelwyd ac eglwys sy'n gyfarwydd iawn i aelodau'r Tabernacl:



*'Rwy'n blentyn y '60au, ac o ganlyniad i'r wlad fach lle'n magwyd, y teulu a'r capel fu'n aelwydydd i mi a'r ffrindiau lluosog oedd gan fy rhieni ar hyd a lled y wlad, fe gyflwynwyd rhai pethau i mi fel plentyn fel gwirioneddau y tu hwnt i amheuaeth. Y gwirionedd canolog diwinyddol yn ein tŷ ni oedd hawl pawb i holi cwestiynau, heb setlo am atebion fformiwla parotaidd. Y gwirioneddau eraill, 'non-negotiable', oedd bod pob person yn gydradd, pob hil yn gydradd, a bod bywyd yn well wrth wasanaethu nag wrth eistedd yn ôl a gadael i eraill wneud y gwaith. Eiconau ein cartref oedd Donald Soper a Desmond Tutu. A Dafydd Iwan a'r Gwyddel heddychlon John Hume. Ond ar y pryd, y sant-ferthyr a'r eicon pennaf oedd MLK. Ac rwy'n tybio nad oes llawer wedi newid.'*

[Cofiwch fod modd i chi ddarllen ysgrif Geraint yn ei chyfanrwydd ar wefan yr Undeb: [www.annibynwyr.org](http://www.annibynwyr.org)]

## CASGLIAD BANC BWYD TAF ELÁI

Gyda chyfnod casgliad Wythnos Cymorth Cristnogol wedi dod i ben, byddwn yn ail-afael yn ein casgliad ariannol ar gyfer Banc Bwyd Taf Elái. Mae mwy o bobl nag erioed yn dibynnu ar y Banc Bwyd yn ystod y cyfnod heriol hwn, a ninnau'n methu cynnal ein casgliad bwyd arferol oherwydd y cyfyngiadau presennol. Fe fyddwn ni'n dilyn y drefn ddiweddar o gyfrannu:

Trosglwyddiad banc:

Cod didoli 30 – 96 – 72

Rhif y cyfrif 03607499

Cyfeirnod Banc Bwyd Taf Elái

Siec yn daladwy i: Capel y Tabernacl Cyf gyda nodyn yn enwi Banc Bwyd Taf Elái. Anfoner at: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU.

## YR AMLENNI GWYN A BROWN

Gallwch gyfrannu i gronfa'r eglwys (amlenni gwyn) a/neu gronfa'r elusennau (amlenni brown) drwy anfon siec yn daladwy i *Capel y Tabernacl Cyf.* at ein Trysorydd: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU. Neu gallwch wneud trosglwyddiad banc i gyfrif y capel, gan nodi Casgliad Amlenni Gwyn neu Casgliad Amlenni Brown ynghyd â'ch rhif aelodaeth yn y blwch lle gofynnir am gyfeirnod:

Enw'r cyfrif Capel y Tabernacl Cyf.

Cod didoli 30 – 96 – 72

Rhif y cyfrif 03607499

## **Diolch am bob cefnogaeth**

*Cylchlythyr wythnosol yw hwn i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org). Cofiwch argraffu copi i'r aelodau hynny sydd heb gysylltiad â'r we. Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rhannu erbyn nos lau yn wythnosol i: [gehpenqwert@yahoo.co.uk](mailto:gehpenqwert@yahoo.co.uk) / 01443 225205.*